**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

22 Mai 2024

Annwyl Eluned,

Fe gofiwch i'r Pwyllgor, ym mis Mehefin 2022, gyhoeddi ei adroddiad, *Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai.* Tynnodd yr adroddiad sylw at bwysigrwydd llif cleifion da drwy wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ran gwella ansawdd gofal i gleifion. Tynnodd sylw hefyd at y diffyg capasiti difrifol yn ein system gofal cymdeithasol, sy'n golygu bod rhai cleifion sy'n barod i gael eu rhyddhau yn aros yn yr ysbyty. Mae'r achosion hyn o oedi wrth drosglwyddo gofal yn niweidiol i'r unigolyn, ac i lif cleifion drwy'r ysbyty, ac maent yn cyfrannu at bwysau ar adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a'r gwasanaethau ambiwlans.

Yn ein cyfarfod ar 15 Mai, cawsom dystiolaeth gan Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Pan ofynnwyd am oedi mewn amseroedd ymateb, dyma'r ateb gawsom:

> *"what causes the response delays is our inability to hand over patients at the emergency department, and what causes that problem is the fact that there's a problem with flow through the hospital, through the emergency department into the hospital and back out into the community, particularly in adult social care."*

Clywsom hefyd fod yr amser trosglwyddo cyfartalog yn yr adran achosion brys yn fwy na dwy awr, yn lle'r 15 munud y dylai ei gymryd.

Yng ngoleuni hyn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed i roi argymhellion ein hadroddiad ar waith ac am y camau mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella llif cleifion drwy ysbytai.

Yn gywir,

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament